INDEPENDENT
SENTENCING
REVIEW

## 1. Crynodeb gweithredol

Lansiodd Llywodraeth y DU Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ym mis Hydref 2024, a oedd yn gyfrifol am ailwerthuso fframwaith dedfrydu Cymru a Lloegr yn gynhwysfawr. I gefnogi'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, cyhoeddwyd Cais am Dystiolaeth a oedd yn gofyn am fewnbwn gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Gofynnodd yr Adolygiad 7 cwestiwn am hanes dedfrydu, strwythur dedfrydu, rôl technoleg, dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar, datblygiad dedfrydau o garchar ac anghenion unigol troseddwyr a dioddefwyr. Lansiwyd y Cais am Dystiolaeth ar 14 Tachwedd 2024 ac fe wnaeth bara am 8 wythnos gan ddod i ben ar 9 Ionawr 2025. Cafodd yr Adolygiad 1033 o ymatebion gan amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys: carcharorion, cyn-garcharorion a'u teuluoedd; sefydliadau'r trydydd sector; grwpiau ymgyrchu; academyddion; aelodau o'r cyhoedd; a sefydliadau cyfiawnder troseddol. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu cymhlethdod a difrifoldeb y pwnc.

Ochr yn ochr â'r Cais am Dystiolaeth, cynhaliodd y Panel raglen strategol o ymgysylltu â sefydliadau ac unigolion allweddol sy'n cynrychioli gwahanol sectorau o'r system cyfiawnder troseddol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno neu fynychu 10 cyfarfod bwrdd crwn a digwyddiadau ar bynciau gan gynnwys lleihau aildroseddu; profiad bywyd troseddwyr; dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) a throseddwyr benywaidd; atebion technolegol; a chyfres o ymweliadau gan gynnwys yr ystad carchardai ar gyfer dynion a menywod, unedau prawf, adeiladau cymeradwy a Chanolfan i Fenywod.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r dadansoddiad o'r Cais am Dystiolaeth, ochr yn ochr â thystiolaeth a gasglwyd drwy'r rhaglen ymgysylltu strategol, a chymaryddion rhyngwladol.

## Y prif ganfyddiadau

Mae'r papur hwn yn strwythuro'r canfyddiadau mewn sawl adran, yn seiliedig ar y themâu a gododd yn ystod y dadansoddiad. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau ym mhob adran i'w weld isod:

**Barn ymatebwyr ar y prif ffactorau sy'n sbarduno newidiadau mewn dedfrydu:** Teimlai ymatebwyr fod mwy o ddedfrydau o garchar ac adalw troseddwyr yn cael eu defnyddio, bod dedfrydau hirach yn y carchar a bod llai o ddedfrydau cymunedol yn cael eu defnyddio. Fe wnaethant nodi'r prif ffactorau canlynol fel rhai sy'n sail i'r newidiadau hyn:

- Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi'r llywodraeth.
- Newidiadau i bolisi'r llywodraeth y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol sydd wedi ehangu anghydraddoldebau o ran cyfoeth, iechyd, addysg a llety, gan achosi cynnydd mewn troseddu.
- Newidiadau mewn ymarfer ar draws yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r Farnwriaeth.
- Dylanwad y cyhoedd a'r cyfryngau yn arwain at ddedfrydau llymach.
- Anghysondebau wrth ddefnyddio meini prawf a chanllawiau dedfrydu, cyfle i arfer disgresiwn barnwrol a diffyg dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddedfrydu.

**Barn ymatebwyr ar effeithiolrwydd y system bresennol:** Tynnodd ymatebwyr sylw at yr aneffeithlonrwydd canlynol gyda'r system gyfiawnder bresennol yng Nghymru a Lloegr:

- Mae dibenion statudol dedfrydu yn cael eu cymhwyso at benderfyniadau dedfrydu mewn ffordd anghytbwys o blaid cosbi. Teimlai ymatebwyr y dylai dedfrydu ganolbwyntio mwy ar adsefydlu a gwneud iawn.
- Mae dedfrydu'n arwain at nifer o ganlyniadau anfwriadol i ddioddefwyr, y cyhoedd, troseddwyr a'u teuluoedd. Awgrymodd ymatebwyr y byddai'r system cyfiawnder troseddol yn elwa o ehangu'r diffiniad o ganlyniadau gwell i gynnwys profiadau dioddefwyr.
- Mae cydbwyso anghenion rhanddeiliaid yn heriol, ond roedd consensws y byddai dulliau cyfiawnder adferol a gwella tryloywder wrth ddedfrydu yn cyfrannu rhywfaint at wella'r cydbwysedd hwn.

**Barn ymatebwyr ar sut mae'r system yn ymateb i anghenion unigol:** Yn gyffredinol, mynegodd ymatebwyr farn bod yr arferion dedfrydu presennol yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol, gyda menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anghenion iechyd meddwl neu gaethiwed yn aml yn cael dedfrydau llymach na charfannau eraill. Cynigiwyd dedfrydu wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol ac i fynd i'r afael â mathau penodol o droseddau, fel yr amlinellir yn Nhabl 1.

**Tabl 1.** Awgrymiadau ymatebwyr ynghylch sut gellid gwella arferion dedfrydu er mwyn ymateb i anghenion unigol.

| **Themâu** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Defnyddio mwy o ddedfrydau digarchar | Dylid eu hystyried ar gyfer troseddwyr ifanc, menywod (gan gynnwys menywod beichiog, ond heb dagio electronig), troseddwyr ag anghenion iechyd meddwl a chaethiwed, troseddwyr di-drais, troseddwyr tro cyntaf, troseddwyr niwrowahanol a throseddwyr “damweiniol”. |
| Mwy o ffocws ar achosion troseddu | Canolbwyntio ar fynd i’r afael â gwraidd y broblem, yn enwedig yn y gymuned, er mwyn dargyfeirio troseddwyr ifanc, troseddwyr tro cyntaf a throseddwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl a chaethiwed oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. |
| Hyfforddiant diwylliannol | Hyfforddiant diwylliannol gorfodol ar gyfer staff y system cyfiawnder troseddol, dulliau adsefydlu diwylliannol benodol ar gyfer troseddwyr o leiafrifoedd ethnig. |
| Gwaith aml-asiantaeth | Gan gynnwys gyda’r trydydd sector, er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i droseddwyr sy’n fenywod a throseddwyr sy’n ddioddefwyr hefyd. |

## Barn ymatebwyr ar ffyrdd o wella dedfrydu

Cynigiodd yr ymatebwyr lawer o newidiadau i wella polisi ac arferion dedfrydu, fel y cyflwynir yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2.** Awgrymiadau i wella polisi ac ymarfer dedfrydu.

| **Themâu** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Deddfwriaeth, polisi a dedfrydu | Cyflwyno panel cynghori i oruchwylio polisi dedfrydu, dad-droseddoli rhai troseddau, dull dedfrydu deinamig, sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. |
| Defnyddio dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar | Lleihau defnydd a hyd dedfrydau o garchar – yn enwedig ar gyfer troseddwyr di-drais a risg isel – a chynyddu’r defnydd o ddedfrydau gohiriedig, ataliedig a chymunedol. Lleihau’r defnydd o ddedfrydau byr o garchar. Ystyried defnyddio dirwyon a chyrffyw. |
| System y llys | Ailstrwythuro llysoedd yn 4 haen (datrysiad cyn y llys, llysoedd ynadon, llysoedd canolradd a Llys y Goron), cynyddu gwybodaeth y barnwyr am opsiynau dedfrydu drwy hyfforddiant, cynyddu’r defnydd o lysoedd datrys problemau. |

## Newidiadau a awgrymir i reoli dedfrydau a datblygiad

Cynigiodd ymatebwyr lawer o newidiadau i wella'r modd y rheolir dedfrydau a datblygiad, fel y cyflwynir yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3.** Awgrymiadau i wella polisi ac ymarfer dedfrydu.

| **Themâu** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Dedfrydau o gaethiwed | Cynyddu gweithgarwch a chymorth yn y ddalfa i gefnogi adsefydlu, darparu llwybrau datblygu clir, cynyddu mynediad at garchardai agored, cael gwared ar oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu, gan ddefnyddio galw'n ôl fel dewis olaf. |
| Dedfrydau cymunedol | Gwella gwybodaeth y cyhoedd, canolbwyntio mwy ar adsefydlu, cynyddu hyder y farnwriaeth, lleoleiddio gwasanaethau prawf, mwy o fuddsoddiad, gwella hyfforddiant, gwella ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu. Buddsoddi mwy mewn gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o reoli gwasanaethau cymunedol a chynyddu ymdrechion i ddargyfeirio troseddwyr. |

## Barn ymatebwyr ar ddefnyddio technoleg wrth ddedfrydu

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch y defnydd presennol a'r defnydd arfaethedig o dechnoleg. Fe wnaethant drafod defnyddio deallusrwydd artiffisial, monitro electronig, rhith-wirionedd a llwyfannau ar-lein i gefnogi adsefydlu a rheoli dedfrydau yn well. Fodd bynnag, codwyd llawer o heriau o ran y potensial ar gyfer rhagfarn mewn adnoddau rhagfynegi a ddefnyddir i asesu a rheoli risgiau, yn enwedig deallusrwydd artiffisial. Awgrymwyd hefyd bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i gymesuredd, cydsyniad a chamddefnydd posibl o ddata er mwyn sicrhau bod technolegau newydd yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol a chyfreithlon.